



Dŵr Cymru
Welsh Water



Archwiliad dŵr cartrefi

Defnyddio dŵr yn ddoeth

Rôl Dŵr Cymru Welsh Water yw darparu dŵr yfed diogel a dibynadwy ar gyfer ein cwsmeriaid, 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn – gan sicrhau na fydd ein gwaith tynnu dŵr yn amharu ar yr amgylchedd.

Yn ystod haf poeth 2006 llwyddwyd i gynnal cyflenwadau dŵr ein cwsmeriaid heb unrhyw waharddiad ar bibellau neu gyfyngiad arall ar ddefnydd o ddŵr – er bod y galw am ddŵr mewn rhai ardaloedd wedi cynyddu hyd at 40% yn ystod cyfnodau brig ym mis Gorffennaf – yn bennaf oherwydd dyfrio gerddi. Bwriadwn ddilyn yr un drefn yn y dyfodol, dim ots beth fydd y tywydd – dyna ein gwaith wedi’r cwbl.

Fodd bynnag, rydym yn deall na fyddwch am i ni dynnu mwy o ddŵr na’r angen o’r amgylchedd. Rydym wedi ymrwymo i gynnal adnoddau dŵr a defnydd effeithiol ohonynt, a byddwn yn cynghori ein cwsmeriaid i ddefnyddio dŵr yn ddoeth pryd bynnag y gallant.

Mae’r daflen hon yn dangos sut i ddefnyddio dŵr yn ddoeth o gwmpas eich cartref. Wrth ddilyn rhai mesurau synhwyrol, byddwch yn synnu o weld sut allwch ostwng y dŵr a ddefnyddir wrth wneud tasgau beunyddiol.

Dŵr yn gollwng? Galwch 0800 281 432

Beth yw ein defnydd o ddŵr?

Yn y byd modern mae pobl yn tueddu i ddefnyddio mwy o ddŵr. Byddwn yn cael bath neu gawod yn fwy aml ac mae peiriannau golchi dillad a llestri mewn mwy o gartrefi. Yn y 1970au roedd pob person yn defnyddio 110 litr (24 galwyn) y dydd ar gyfartaledd. Erbyn heddiw mae'r ffigur wedi codi i dros 140 litr (30 galwyn) y dydd.

Defnydd dŵr gan offer?


Ar gyfartaledd

Eitem	Defnydd dŵr	(metr ciwbig)
Taenellwyr	1000 litr yr awr	1.000
Pibellau gardd	500 litr yr awr	0.500
Cawodydd pwerus	90 litr	0.090
Bath	80 litr	0.080
Cawodydd	35 litr	0.035
Peiriannau golchi llestri	35 litr	0.035
Toiled (hen seston)	9 litr bob fflys	0.009
Toiled (seston modern)	6 litr bob fflys	0.006

Defnydd dŵr yn y cartref?

Cartref arferol

- 33% toiled
- 22% peiriannau golchi dillad a llestri
- 16% sinc cegin
- 13% bath
- 9% basn ymolchi
- 4% cawod
- 3% tap tu allan



Doeth gyda dŵr yn eich cartref



Cegin

- Mae peiriant golchi dillad/llestri yn defnyddio hyd at 80 litr bob tro, felly cofiwch ei lenwi, neu ddewis y botwm hanner llwyth. Os bydd angen prynu peiriant newydd, trîwch gael un sy'n defnyddio dŵr yn effeithiol.
- Golchi llestri mewn powlen a dim rinsio o dan y tap.
- Golchi llysgiau mewn powlen, nid o dan y tap .



Ystafell ymolchi

- Bydd dros dreian o'r dŵr yn mynd i lawr y toiled - felly trîwch osgoi fflysio diangen. Gwaredu hancesi papur, gwlan cotwm a gwastraff arall yn y bin, nid y toiled. Dewis seston fflysio deuol wrth osod neu adnewyddu toiled.
- Cymryd cawod nid bath - ond cofiwch gall cawod bwerus ddefnyddio dwywaith cymaint o ddŵr â bath.
- Troi'r tap i ffwrdd wrth lanhau eich dannedd.



Gallai gosod dyfais arbed dŵr, fel bag hippo, helpu i ostwng y dŵr a ddefnyddir wrth fflysio'r toiled. Os am archebu un galwch ni ar **0800 052 0130** neu ewch i www.dwrcymru.com/waterefficiency



Gardd

- Osgoi defnyddio taenellwr yn yr ardd – defnyddio can dŵr neu bibell law. Mae taenellwr yn defnyddio 1 metr ciwbig (1,000 litr) o ddŵr bob awr - sef defnydd teulu cyfartalog mewn deuddydd.
- Casglu dŵr glaw mewn casgen yn hytrach na gwastraffu dŵr yfed ar yr ardd.
- Dewis planhigion sy'n goddef sychder fel bywlys, lafant a geranium, a rhoi polythen tu fewn potiau terracotta a basgedi er mwyn gostwng anweddiad.

Dŵr yn gollwng? Galwch 0800 281 432

Dŵr yn gollwng

Dros y 10 mlynedd diwethaf rydym wedi gostwng gollyngiadau bron 50% ac mae ein perfformiad yn cymharu â gweddill y diwydiant dŵr. Ar gyfartaledd byddwn yn trwsio 50 rhwyg a gollyngiad y dydd ar ein rhwydwaith. Os yn sylwi gollyngiad ar eich pibell gyflenwi, efallai byddwn yn gallu helpu i nodi ei leoliad a'i drwsio. Galwch ni ar **0800 281 432** am fanylion pellach.

Helpu i ostwng gollyngiadau

Pibellau'n gollwng

Edrych am fannau llaith ar lwybrau ac yn yr ardd - gallant awgrymu gollyngiad o'ch pibell gyflenwi. Os oes

mesurydd dŵr gennych, trowch i ffwrdd y tapiau ac offer dŵr ac yna edrychwch i weld os bydd y mesurydd yn dal i gofnodi dŵr. Gallai hynny hefyd awgrymu gollyngiad. Am wybodaeth bellach am osod mesurydd dŵr, galwch ni ar **0800 052 0145**.

Tapiau'n diferu

Tap yn diferu yn gallu gwastraffu hyd at 30 litr o ddŵr y dydd. Cofiwch adnewyddu wasier cyn gynted ag y sylwch unrhyw ddŵr yn diferu.

Gorlifoedd

Archwilio pob gorlif er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Diogelu rhag rhew

Cofiwch lagio pibellau a thanciau dŵr, tu fewn a thu allan eich cartref. Bydd gollyngiadau'n cynyddu'n sylweddol yn dilyn tywydd oer iawn. Am gopi o'n taflen 'Diogelu pibellau rhag rhew' galwch ni ar **0800 052 130**.

Os am gyngor ar ddefnyddio dŵr yn ddoeth yn y cartref a'r ardd, ewch i www.dwrcymru.com

Cyfrif eich defnydd dŵr?

Defnyddiwch y tabl isod i gyfrif eich defnydd dŵr

Cyfrif eich defnydd dŵr?

Gweithgaredd	Defnydd cyfartalog (litr)		Nifer bob dydd		Cyfanswm dyddiol
Bath	80	X		=	
Cawod bwerus (pwmp yn codi'r pwysedd)	90	X		=	
Cawod gyffredin	35	X		=	
Hen seston toiled (os yw'r toiled yn defnyddio dyfais arbed dŵr fel bag hippo, tynnu 3 litr am bob fflys)	9	X		=	
Seston toiled newydd (fflys deuol)	6	X		=	
Golchi dwylo a glanhau dannedd heb adael y tap yn rhedeg (per person per dydd)	6	X		=	
Golchi dwylo a glanhau dannedd gan adael y tap yn rhedeg (per person per dydd)	10	X		=	
Defnyddio peiriant golchi (llawn a hanner llawn)	80	X		=	
Defnyddio peiriant golchi, gosodiad hanner llwyth	60	X		=	
Defnyddio peiriant golchi, model sy'n defnyddio dŵr yn effeithiol	55	X		=	
Defnyddio peiriant golchi llestri	35	X		=	
Defnyddio peiriant golchi llestri, gosodiad hanner llwyth	20	X		=	
Defnyddio peiriant golchi, model sy'n defnyddio dŵr yn effeithiol	22	X		=	
Golchi llestri â llaw	6	X		=	
Coginio ac yfed (per person, per dydd)	10	X		=	
Cyfanswm y cartref per dydd				=	
Nifer y bobl yn y cartref				=	
Defnydd cyfartalog per person per dydd				=	

NB – gallai rhai gweithgareddau tymhorol newid eich sgôr yn sylweddol

Eich defnydd chi o gymharu â'r defnydd cyfartalog o 150 litr per person per dydd?
Defnyddio taenellwr gardd am awr yn gallu ychwanegu 1,00 litr